
BWLETIN POLISI CYTÛN

CYTÛN POLICY BULLETIN



MARCH / MAWRTH '13

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I GOMISIWN SILK

Mae'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, wedi dadlennu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru yn y tymor hir o fewn Teyrnas Unedig ddatganoledig.

Mewn cyflwyniad i Gomisiwn Llywodraeth y DU ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), mae'r Prif Weinidog yn galw am gynyddu ac ailstrwythuro datganoli i Gymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru newydd, er mwyn cryfhau atebolrwydd, a lleihau'r posibiladau am wrthdaro rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU.

Byddai'r setliad newydd yn disodli'r "model trosglwyddo" presennol o ddatganoli, gyda phwerau wedi'u datganoli i Gymru ar faterion penodol, gyda model newydd o "bwerau a gedwir", pan fyddai meysydd penodol o gyfrifoldeb megis materion cyfansoddiadol, amddiffyn, materion tramor, nawdd cymdeithasol a pholisi macro-economaidd wedi'u "cadw" yn Senedd y DU, gyda'r materion eraill wedi'u datganoli i Gymru. Dywedodd y Prif Weinidog na ddylai'r un o bwerau presennol Llywodraeth Cymru na'r Cynulliad Cenedlaethol gael eu rhoi yn ôl i San Steffan.

Mae Llywodraeth Cymru yn galw am estyn datganoli deddfwriaethol i'r meysydd canlynol, er mwyn cynyddu atebolrwydd democrataidd a sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn ymateb i anghenion penodol Cymru:

- Plismona, diogelwch cymunedol ac atal troseddu, gan gynnwys Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – er mwyn cryfhau gweithio ar y cyd gyda gwasanaethau datganoledig ac er mwyn lleihau lefelau aildroseddu.
- Dŵr – er mwyn llenwi bylchau yn y setliad presennol fel bod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol yng nghyswllt yr holl faterion yn ymwneud â dŵr, ac er mwyn trefnu cymhwysedd i gyd-fynd â ffin ddaearyddol Cymru a Lloegr.
- Oedolion a phlant bregus – er mwyn egluro ac ehangu cymhwysedd gan gynnwys yng nghyswllt rhoi plant mewn gofal, maethu a mabwysiadu (cyfraith plant cyhoeddus).
- Diogelwch ar y ffyrdd a phwerau er mwyn gwella cludiant cyhoeddus – gan gynnwys grymoedd dros derfynau cyflymder ac yfed a gyrru, a rheoleiddio bysys a thacsis.

- Porthladdoedd – er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o botensial economaidd porthladdoedd Cymru.
- Trwyddedu alcohol ac adloniant gyda'r hwyr – er mwyn hyrwyddo iechyd y cyhoedd a diogelwch y gymuned.
- Cyfiawnder Gweinyddol ynghylch meysydd datganoledig, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cwynion ac unioni camweddau.
- Gweinyddu etholiadau yng Nghymru – gan gynnwys Etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac awdurdodau lleol.
- Trethu – pwerau sy'n gyson ag argymhellion Silk 1 er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar drethi datganoledig.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid datganoli'r cyfrifoldebau hyn i'r Cynulliad erbyn 2020/21, fel rhan o'r gwaith diwygio ehangach ar Gyfansoddiad y DU yn dilyn refferendwm annibyniaeth yr Alban. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ehangu'r setliad datganoli mewn perthynas â gwasanaethau a seilwaith y rheilffyrdd, cyn hynny.

Mae hefyd yn galw am ddatganoli cyfrifoldebau gweithredol i Gymru yn y meysydd canlynol, i gychwyn ar adegau y cytunir arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU:

- Rhoi caniatâd ar gynhyrchu ynni ar raddfa eang (ac eithrio pŵer niwclear) a seilwaith ynni cysylltiedig - i ganiatáu gwneud penderfyniadau sy'n ystyried yr ardal leol a chysondeb â phwerau cynllunio eraill sydd wedi'u datganoli eisoes;
- Y system cyfiawnder ieuencid – er mwyn hybu ffyrdd arloesol o atal pobl ifanc rhag troseddu, a gweithio gyda gwasanaethau plant sydd eisoes wedi'u datganoli;
- Swyddogaethau Gweinidogion y Goron o fewn cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig y Cynulliad. Yn y dyfodol dylai'r rhain gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru;
- Cyfrifoldebau dros benodi aelod Cymru o Ymddiriedolaeth y BBC, a Chadeirydd ac aelodau Awdurdod S4C, er mwyn sicrhau fod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn y sefydliadau hollbwysig hyn;
- Argyfyngau sifil posibl – cadarnhau rôl de facto bresennol Gweinidogion Cymru ynghylch arwain a chydlynu mewn argyfyngau sifil ac egluro atebolrwydd;
- Dylid ymestyn rhai materion morol, lle caiff pwerau eu harfer ar hyn o bryd mewn perthynas â dyfroedd glannau Cymru yn unig, fel eu bod yn cynnwys dyfroedd môr mawr Cymru.

Dylai'r gwaith o drosglwyddo'r holl gyfrifoldebau o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru ddigwydd law yn llaw â throsglwyddiadau cyllidebol llawn, yn destun craffu annibynnol. Ym

marn Llywodraeth Cymru, ni fyddai angen refferendwm pellach cyn i'r cynigion hyn gael effaith. Mae canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011 yn cadarnhau cefnogaeth yr etholwyr i'r Cynulliad Cenedlaethol fel sefydliad ag awdurdod deddfwriaethol estynedig dros Gymru.

Ceir manylion pellach a chyflwyniad y llywodraeth [yma](#).

DATGELU EFFAITH DIWYGIADAU LLES

Mae cyfres o adroddiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cyflwyno astudiaeth ar yr effaith y bydd newidiadau i'r system lles yn eu cael ar bobl ac economi Cymru.

Mae'r ddau adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn deall yn well beth fydd effaith y diwygiadau lles yn dangos y bydd y newidiadau i system lles y DU a gyhoeddwyd cyn Datganiad yr Hydref ym mis Rhagfyr yn lleihau cyfanswm yr hawliau lles a chredyd treth yng Nghymru o tua £590 miliwn yn 2014-15. Bydd toriadau ychwanegol a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref yn golygu y bydd y colledion hyd yn oed yn uwch na hynny.

Ar y cyfan, teuluoedd â phlant a'r rhai o deuluoedd ar incwm isel-canol fydd yn dioddef waethaf o ganlyniad i'r newidiadau.

Y diwygiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl sy'n gyfrifol am rai o'r toriadau mwyaf yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd tua 42,500 o bobl yng Nghymru yn colli eu hawliad o ganlyniad i'r diwygiadau hyn – colled ar gyfartaledd o hyd at £83 i bob hawlydd bob wythnos a cholled blynyddol o hyd at £183m trwy Gymru gyfan.

Mae'r rhain sy'n cael eu heffeithio gan y toriadau mewn taliadau budd-dal yn debygol o leihau eu gwariant ar nwyddau a gwasanaethau, gan gymryd hyd yn oed yn fwy o arian allan o economi Cymru.

Mae'r adroddiadau ar gael [yma](#).

PORTHOL YSGOLION NEWYDD YN HWB I BWERAU RHIENI

Mae gwefan arloesol newydd sy'n darparu gwybodaeth ystadegol am bob ysgol a gynhelir yng Nghymru wedi'i lansio gan Lywodraeth Lafur Cymru.

Mae'r wefan, mylocalschool.wales.gov.uk, yn cynnwys cannoedd o filoedd o ddarnau data sy'n cynnig porthol o fewn cyrraedd pawb, llawn gwybodaeth werthfawr i rieni a gofalwyr a'r rheini sydd â diddordeb mewn ystadegau am addysg mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i roi darlun mwy eglur i rieni o berfformiad ysgolion ar draws Cymru, a sicrhau fod ystadegau am ysgolion yn fwy agored a thryloyw. Mae'r safle yn galluogi defnyddwyr i weld ystod eang o wybodaeth ystadegol am ysgolion unigol gan gynnwys:

- Gwybodaeth gyd-destunol, er enghraifft y math o ysgol, a niferoedd y disgyblion a'r athrawon.
- Gwybodaeth am berfformiad ar lefel cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2 a 3, TGAU a Safon Uwch. Cyflwynir manylion hefyd am fandio a dangosyddion sylfaenol bandio.
- Gwybodaeth ariannol megis gwariant pob ysgol.
- Dolen i adroddiad diweddaraf Estyn.

CRONFA WIRFODDOLI AR AGOR I GEISIADAU

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fod y cynllun Gwirfoddoli yng Nghymru wedi'i ymestyn tan 2014.

Mae cyfanswm o £911,500 o gyllid ar gael bellach gan y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru i dalu am y gost o recriwtio a datblygu gwirfoddolwyr yn y Trydydd Sector. Gall sefydliadau wneud cais am grantiau o hyd at £25,000 i dalu am dreuliau gwirfoddolwyr, hyfforddi a recriwtio staff arbenigol i helpu dod o hyd i wirfoddolwyr newydd, a'u cefnogi nhw.

Ar hyn o bryd mae'r gronfa yn cefnogi dros 70 o sefydliadau ar draws Cymru a'r llynedd yn unig, roedd wedi helpu i recriwtio dros 5,300 o wirfoddolwyr newydd sydd wedi cyfrannu dros 380,000 o oriau er lles cymunedau Cymru.

Dylai mudiadau o'r Trydydd Sector sydd â diddordeb mewn gwneud cais am gyllid gysylltu â Llinell Gymorth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar 0800 2888 329. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Dydd Gwener 22 Mawrth.

AMLINELLU'R BLAENORIAETHAU AR GYFER MYND I'R AFAEL Â CHAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU YNG NGHYMRU

Mae Gweinidog Iechyd Cymru Lesley Griffiths wedi amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau rhwng 2013-15.

Dyma'r trydydd cynllun cyflawni o Strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau, "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed", ac mae'n nodi'r camau gweithredu i'w cymryd yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn lleihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio alcohol a chyffuriau. Mae'r camau yn ystod y tair blynedd nesaf yn cynnwys:

- Datblygu llwybr penodol ar gyfer triniaeth i gyn-filwyr.
- Cynllun ar gyfer ymateb i fygythiad gan dueddiadau newydd o ran camddefnyddio sylweddau.

- Llwybrau gofal integredig gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi dros £1.18m o gyllid er mwyn gwella cyfleusterau i drin y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau ar draws Cymru yn 2012-2013 a 2013-2014.

Mae rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

CEFNOGI DIWRNOD RHYNGWLADOL Y MERCHED

Mae Gweinidog Cydraddoldeb Cymru Jane Hutt wedi cyhoeddi dros £74,000 ar gyfer prosiectau ar draws Cymru a gynhelir i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn 2013.

Y thema ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched yng Nghymru eleni, a gynhelir ar Fawrth 8fed, yw 'Menywod Gweladwy: Grymuso merched a menywod yng Nghymru'. Ymhlith y sefydliadau a fydd yn derbyn arian mae:

- Rhaglen addysgol Vi-ability yn Abertawe
- Cynulliad Merched Cymru
- Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli
- Gwobrau Llwyddiannau Menywod Asiaidd Cymru

Mae rhestr lawn o'r prosiectau a gefnogir ynghlwm. Am ragor o wybodaeth ynghylch Diwrnod Rhyngwladol y Merched edrychwch yma: <http://wenwales.org/international-womens-day>

CYFRADDAU AILGYLCHU'N PARHAU I GODI YNG NGHYMRU

Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2012 ailgylchodd pobl Cymru 54% o'u gwastraff.

Mae ffigyrau newydd yn dangos bod tri y cant yn fwy o wastraff wedi'i ailgylchu, o gymharu â'r un tri mis yn 2011/12. Cafwyd cynnydd o un y cant o gymharu â'r tri mis blaenorol (Ebrill - Mehefin 2012).

Ailgylchodd cynghorau gan gynnwys Wrecsam a Chaerffili 59% o'u gwastraff, a gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn ailgylchu ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful, o gymharu â'r un chwarter yn 2011, gyda chynnydd o 17% ac 14%, diolch i welliannau i'w systemau casglu sbwriel.

Mae prif strategaeth gwastraff Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, yn gosod targedau uchelgeisiol o ailgylchu 52% o wastraff Cymru erbyn 2012/13 a 70% erbyn 2024/25. Mae'r ystadegau hyn yn dangos bod Cymru'n parhau i fod ar y llwybr cywir i gwrdd â'i tharged statudol gyntaf.

Mae'r lefelau ailgylchu diweddaraf ar gyfer Awdurdodau Lleol ar draws Cymru i'w gweld [yma](#).

CYMORTH I BLANT SYDD MEWN PERYGL O GAEL EU HESGEULUSO

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyfraniad o £75,000 i ariannu prosiect i ganfod a helpu plant sydd mewn perygl o gael eu hesgeuluso.

Bydd y prosiect, sydd wedi'i lunio a'i weithredu gan yr NSPCC a Gweithredu dros Blant, yn datblygu dull mwy cadarn o sicrhau bod plant sy'n cael eu hesgeuluso'n cael y cymorth y mae angen nhw ei angen. Mae hyn yn cynnwys eu canfod yn gynt, hyfforddiant ar gyfer gweithwyr rheng flaen amlddisgyblaeth proffesiynol, defnyddio dulliau o weithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac ymateb yn effeithiol i bob plentyn os oes pryder ei fod yn cael ei esgeuluso.

Bydd y prosiect yn adeiladu ar y wybodaeth, yr adnoddau a'r arbenigedd sydd eisoes ar gael ar esgeuluso plant, ac yn cyflwyno argymhellion ar sut i wella ymatebion aml-asiantaeth i fynd i'r afael ag esgeuluso plant yng Nghymru.

Esgeulustod sy'n cyfrif am bron i hanner y plant sydd â chynllun amddiffyn plant yng Nghymru. Mae angen i'r ymatebion i esgeulustod fod yn gymesur ac mae angen deall y gwahaniaeth rhwng esgeulustod anfwriadol, sy'n aml yn deillio o'r ffaith nad yw pobl yn gwybod sut i fod yn rhieni da, ac esgeulustod bwriadol, ble mae angen i'r gwasanaethau cymdeithasol gamu mewn.

Un o'r prif bethau y mae ymchwil i esgeulustod wedi'i ddarganfod yw bod y rhan fwyaf o achosion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol, ond os oedd yna gred fod yna flaenoriaeth isel i'r achos (esgeuluso anfwriadol) yna ni chafwyd llawer o gefnogaeth nac ymyrraeth. Mewn sawl achos o esgeulustod anfwriadol, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â rhianta gwael, gellid sicrhau gwell canlyniadau drwy weithredu ar y cyd gan yr asiantaethau drwy raglenni ymyrryd buan, yn hytrach na chyfeirio'r achos at y gwasanaethau cymdeithasol.

CRONFA GRANT NEWYDD I FYND I'R AFAEL Â THLODI

Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sargeant, wedi cyhoeddi cronfa newydd ar gyfer grantiau bychan i fynd i'r afael â thlodi.

O fis Ebrill, bydd cyllid gwerth £3.8 miliwn y flwyddyn ar gael i fudiadau ar draws Cymru o Gronfa Grantiau Bach Trechu Tlodi. Mae'r Gronfa newydd hon yn ymgorffori Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf a'r cynllun grantiau bach a oedd ar gael yn flaenrol drwy'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP).

Mae'r gronfa newydd hon, sy'n darparu grantiau o hyd at £3,000 y flwyddyn, yn cadw nodweddion gorau'r ddau gynllun blaenorol ond bydd yn cyd-fynd yn llawer gwell â

blaenoriaethau cyfredol Llywodraeth Cymru. Bydd grantiau ar gael ar gyfer ystod eang o weithgareddau gan gynnwys addysg a mentrau hyfforddi, cyfleusterau chwarae, a chyfleusterau gofal plant i'r rhai sy'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant, yn ogystal ag offer chwaraeon a chost llogi lleoliadau ac offer ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â hybu bywyd iach, a datblygiad addysgol neu economaidd.

Bydd pob Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf hefyd yn gallu gwneud cais am grantiau mwy o faint yn flynyddol er mwyn cefnogi eu Cynlluniau Cyflawni Lleol. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut mae'r cynnig yn berthnasol i agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, a chadarnhau mai pobl sydd â'r angen mwyaf am gymorth fydd yn elwa fwyaf.

AROLWG YN DANGOS LEFELAU UCHEL O FODDHAD GYDA'R GWASANAETH IECHYD YNG NGHYMRU

Mae lefelau boddhad gyda'r GIG yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Ewrop ac yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y DU, yn ôl canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd y mis hwn.

Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod 97% o'r bobl a aeth i weld meddyg teulu a 95% a aeth i apwyntiad ysbyty yn dweud iddyn nhw gael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd lefelau boddhad gyda thriniaeth mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn 84%, ac roedd 92% o'r rhai a aeth i apwyntiadau mewn ysbyty yn fodlon â'r gofal a dderbynion nhw.

Dechreuodd Arolwg Cenedlaethol Cymru ym mis Ionawr 2012 a phob blwyddyn cynhelir dros 14,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb ar draws Cymru â phobl 16 oed ac yn hŷn. Mae'r canlyniadau diweddaraf yn seiliedig ar y 3,500 o gyfweiliadau cyntaf. Mae'r Arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch profiadau pobl o wasanaethau'r GIG, gan gynnwys mynediad at wasanaethau gofal iechyd, boddhad â gofal iechyd, ac a oedd pobl yn teimlo eu bod wedi'u trin ag urddas a pharch.

Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn atgyfnerthu'r angen am y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â rhai meysydd lle nad yw pobl mor fodlon, gan gynnwys darganfod bod 31% o'r bobl a wnaeth apwyntiad gyda'r meddyg teulu wedi'i chael hi'n anodd trefnu apwyntiad cyfleus. Mae gwella mynediad at wasanaethau meddygol teulu yn flaenoriaeth i Lywodraeth Lafur Cymru, ac mae ystadegau diweddar yn dangos cynnydd, gyda 9 o bob 10 o feddygfeydd yng Nghymru bellach yn cynnig apwyntiadau yn gynnar gyda'r nos.

Dywed 59% o bobl yr hoffent gael mwy o wybodaeth am berfformiad eu gwasanaethau iechyd lleol. Dyna pam fod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi system newydd o ddatganiadau Ansawdd Blynyddol o fewn y GIG er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a rhannu'r canlyniadau gyda'r cyhoedd.

Mae'r arolwg yn llawn a'r canlyniadau i'w canfod [yma](#).

GERAINT HOPKINS

POLICY OFFICER / SWYDDOG POLISI

CYTŪN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMURU / CHURCHES TOGETHER IN WALES

029 2046 4378

geraint@cytun.org.uk